



STRWYTHURAU CYFREITHIOL AR GYFER PROSIECTAU YNNI CYMUNEDOL



the coalfields
regeneration trust
ymddiriedolaeth
adfywio'r
meysydd glo

“Creu cyfleoedd ar gyfer twf cymdeithasol ac economaidd, cael effaith barhaol a chadarnhaol, a sicrhau nad yw cyn-gymunedau mwyngloddio dan anfantais oherwydd etifeddiaeth y gorffennol.”

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo (y CRT) ym 1999 ac mae'n elusen genedlaethol ac yn fenter gymdeithasol sydd wedi ymroddi'n llwyr i adfywiad cymdeithasol ac economaidd y cyn-gymunedau mwyngloddio ledled y DU. Ers ei sefydlu, mae'r CRT wedi rhoi'r flaenoriaeth i amddiffyn a datblygu asedau a gwasanaethau cymunedol hanfodol, ac i greu busnesau sy'n eiddo i'r gymuned yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig y DU. Gwneir hynny trwy weithio mewn partneriaethau hirdymor i ddatblygu cymunedau ac economïau lleol sy'n gydnerth ar gyfer y dyfodol.

Mae gan brosiectau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned y potensial i ddarparu ystod o fuddion economaidd-gymdeithasol ar raddfa amgylcheddol a lleol. Gall hyn helpu i rymuso pobl i gael gafael ar ynni glân fforddiadwy a chynhyrchu incwm dros ben i'w ail-fuddsoddi yn eu cymunedau a helpu i adfywio'r hen ardaloedd glofaol hyn.

Mae gan Gymru darged uchelgeisiol i gynhyrchu 70% o'i defnydd trydanol trwy ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030. Disgwylir y bydd 1GW ohono'n eiddo lleol ac y bydd pob cynllun ynni adnewyddadwy newydd erbyn 2020 yn cynnwys elfen o berchnogaeth leol. Lesley Griffiths AC, Medi 2017.

Er bod y sector yn parhau i wynebu heriau trwy leihad yn nifer y cynlluniau cymhelliant treth, cymorthdaliadau'r llywodraeth ac ansicrwydd ynghylch Brexit, mae galw cyson o hyd ar gymunedau i edrych am fodelau amgen ar gyfer cynhyrchu incwm. Gyda pherchnogion tir cyhoeddus fel Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, a Chyfoeth Naturiol Cymru yn fwyfwy agored i drosglwyddo tir er budd cymunedol, ceir mwy o gyfleoedd i wireddu cyd-weledigaethau.

Gall cynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned fod ar sawl ffurf gyfreithiol a gallant fod yr un mor amrywiol â'r cymunedau lle maent yn gweithredu. Er bod yr hyblygrwydd hwn yn gryfder mawr yn y sector ynni cymunedol, gall dewis y strwythur cywir fod yn gymhleth.

Oherwydd natur gymhleth y strwythurau cyfreithiol a masnachol, comisiynodd y CRT y Cyfreithwyr Wrigleys. Bu'r ymgynghorwyr hyn yn flaenllaw yn y sector elusennau a'r economi gymdeithasol ers canol y 1980au. Gofynnwyd iddynt ddarparu cymhariaeth o'r gwahanol fathau o strwythurau cyfreithiol ac amlygu rhai o'u nodweddion unigryw ynghyd â'u manteision ac anfanteision mewn perthynas â phrosiectau ynni cymunedol. Mae'r Cyfreithwyr Wrigleys yn cael eu hystyried ledled y wlad fel ymgynghorwyr o fri ym maes y strwythurau cyfreithiol hynny sy'n llywio prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol a chyllid cymdeithasol.

Strwythurau Cyfreithiol

Mae nifer o strwythurau cyfreithiol yn cael eu defnyddio yn y sector cymunedol ac mae rhai'n fwy perthnasol yng nghyd-destun prosiectau ynni. Yn yr adroddiad hwn, caiff rai o ffurfiau mwyaf cyffredin y strwythurau cyfreithiol eu hystyried a'u cymharu:

- Cwmnïau Cyfyngedig Preifat (a elwir hefyd yn "cwmnïau'r Ddeddf Cwmnïau");
- Cwmnïau Buddiant Cymunedol (y cwmnïau "CIC") (gall y rhain gael eu cyfyngu gan gyfranddaliadau neu warant);
- Cymdeithasau Budd Cymunedol (y cymdeithasau "CBS")
- Cymdeithasau Cydweithredol; a
- Sefydliadau Corfforedig Elusennol (y sefydliadau "CIO").
- Cyfeirir at y rhain fel y "Strwythurau" trwy gydol yr adroddiad hwn.

Nodweddion Cyffredin

Mae pob un o'r gwahanol Strwythurau a ystyrir yn yr adran hon yn rhannu rhai nodweddion cyffredin.

Cyfarwyddwyr ac Aelodau

Mae'r gwahaniaeth rhwng "aelodau" a "chyfarwyddwyr" y sefydliad yn gyffredin i bob un o'r Strwythurau a restrir uchod. Er bod gan bob Strwythur ei reolau a'i weithdrefnau penodol ei hun, gellir crynhoi'r gwahaniaethau'n fras fel a ganlyn:

Mae cyfarwyddwyr yn gyfrifol am fusnes arferol y sefydliad o ddydd i ddydd, er enghraifft cymeradwyo cytundebau cyfreithiol ac adolygu cyfrifon blyneddol y sefydliad. Yn gyffredinol, cymerir penderfyniadau trwy fwyaf, er y gellir amrywio hyn o dan ddogfennau llywodraethol y sefydliad. Lle mae gan y sefydliad statws elusennol, caiff cyfarwyddwyr eu galw'n ymddiriedolwyr hefyd. Rhaid cael o leiaf un cyfarwyddwr ar gyfer cwmni. Rhaid i Gyfansoddiad CIO, Cwmni Cydweithredol a CBS nodi'r nifer lleiaf o gyfarwyddwyr/ymddiriedolwyr. Yr arfer ymhob achos yw cael o leiaf dau berson ar gyfer hyn.

Gellir meddwl am aelodau fel "perchnogion" y sefydliad. Yn gyffredinol, mae'r aelodau'n gyfrifol am benderfyniadau eang y sefydliad sy'n cwmpasu'r "darlun mawr" - er enghraifft, penderfyniadau i benodi cyfarwyddwyr newydd neu i newid cyfansoddiad y sefydliad. Mewn Cwmnïau Deddf Cwmnïau a Chwmnïau Buddiant Cymunedol sydd wedi'u cyfyngu gan gyfranddaliadau, mae'r aelodau'n gyfranddalwyr, gyda phob un ohonynt yn berchen ar ganran o gyfranddaliadau a ddyroddwyd gan y cwmni. Yn gyffredinol yn yr achos hwnnw, cymerir penderfyniadau trwy gytundeb y deiliaid sydd â chanrannau penodol o'r cyfranddaliadau dan sylw, ac felly gall buddsoddwyr mwyaf y sefydliad arfer y rheolaeth fwyaf. Ar y llaw arall, mewn Sefydliad Corfforedig Elusennol (y "CIO"), Cwmni Buddiant Elusennol (y "CIC") a gyfyngwyd trwy warant, a Chwmni Deddf Cwmnïau a gyfyngwyd trwy warant (y "CLG"), mae gan bob aelod hawl i bleidlais ar yr egwyddor o "un aelod, un bleidlais". Mae Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau CBS rywfaint rhwng y ddau oherwydd gall eu haelodau fod yn berchen ar gyfranddaliadau yn y sefydliad ond cymerir penderfyniadau ar yr egwyddor "un aelod, un bleidlais" yn lle "un cyfranddaliad, un bleidlais". Mewn Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol (y "CBS"), rhaid cael o leiaf tri aelod. Mewn Strwythurau eraill, gall fod yn un person.

Dyletswyddau'r Cyfarwyddwyr

Pa Strwythur bynnag a fabwysiadir, bydd gan gyfarwyddwyr ddyletswyddau cyfreithiol i'r sefydliad sydd yn eu penodi. Mae sail gyfreithiol y dyletswyddau hyn yn gwahaniaethu o Strwythur i Strwythur; fodd bynnag, mae cynnwys y dyletswyddau wedi'i hen sefydlu. O ran eu dyletswydd i'r sefydliad, mae'n rheidrwydd ar gyfarwyddwyr i:

- weithredu o fewn eu pwerau cyfansoddiadol a chyfreithiol;
- hyrwyddo llwyddiant y sefydliad;
- meddu ar annibyniaeth barn;
- arfer gofal, medr a diwydrwydd rhesymol;
- osgoi gwrthdrawiad buddiannau a datgan buddiannau mewn trafodiadau arfaethedig; ac
- ymatal rhag derbyn buddiannau gan drydydd partion.

Gall cyfarwyddwyr fod yn atebol i'r sefydliad ei hun neu, mewn rhai amgylchiadau, i erlyniad troseddol oni lynir wrth y dyletswyddau hyn.

Mae'n bwysig nodi bod gan ymddiriedolwyr sefydliadau elusenol (gan gynnwys cyfarwyddwyr CIO) ddyletswyddau pellach o dan y deddfau sy'n llywodraethu elusennau. Am ragor o wybodaeth, ewch i - <https://www.gov.uk/government/publications/the-essential-trustee-what-you-need-to-know-cc3>

Atebolrwydd Cyfyngedig

Gall pob un o'r Strwythurau a restrir elwa o fod yn "bersonoliaeth gyfreithiol". Gall sefydliad â phersonoliaeth gyfreithiol fod â'r hawl i gontractio yn ei enw ei hun, fod yn berchen ar asedau yn ei enw ei hun, a bod yn gyfrifol am ei rwymedigaethau ei hun. Yn gyffredinol, mae personoliaeth gyfreithiol yn golygu bod unrhyw atebolrwydd a ysgwyddir gan y sefydliad yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r sefydliad ei hun, ac nid i'r unigolion sy'n ymwneud â rhedeg y sefydliad. Gelwir yr amddiffyniad hwn yn "atebolrwydd cyfyngedig".

Mae atebolrwydd cyfyngedig yn amddiffyn cyfarwyddwyr, gweithwyr ac aelodau rhag diddymiad y sefydliad, a rhag hawliadau eraill a wneir yn ei erbyn, ar yr amod eu bod yn gweithredu'n unol â'u rhwymedigaethau cyfreithiol ac o fewn pwerau'r dogfennau llywodraethu (sef eu Rheolau ar gyfer Cymdeithasau Budd Cymunedol neu Gymdeithasau Cydweithredol, neu eu Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu ar gyfer Cymdeithasau Buddiant Cymunedol a Chwmnïau Deddf Cwmnïau).

Nid yw'r amddiffyniad a roddir gan atebolrwydd cyfyngedig heb derfynau. Er enghraifft, gellir gosod atebolrwydd personol ar gyfarwyddwyr neu weithwyr gan gyfreithiau penodol, megis y rhai sy'n diogelu'r amgylchedd neu iechyd a diogelwch gweithwyr, neu lle mae cyfarwyddwyr yn gweithredu y tu allan i'r pwerau a ganiatawyd iddynt o dan ddogfennau llywodraethu'r sefydliad.

Statws Elusennol

Ac eithrio'r Sefydliadau Corfforedig Elusennol (CIO), mae dyfarnu statws elusennol yn broses ar wahân i'r strwythur cyfreithiol y mae sefydliad yn rhan ohono, ac o'r herwydd nid oes raid i sefydliad sy'n ceisio statws elusennol ddilyn unrhyw un Strwythur penodol er mwyn cyflawni hyn. Fodd bynnag, mae rhai Strwythurau na allant wneud cais am statws elusennol. Os yw sefydliad yn dymuno dod yn elusen gofrestredig, mae'n bwysig iddo ddewis Strwythur sy'n gydnaws â'r nod hwnnw.

Mae CIO yn strwythur a sefydlwyd at ddibenion elusennol yn unig ac fe'i cofrestrwyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae hyn yn eithriad i'r rheol gyffredinol fod statws elusennol yn bodoli ac yn cael ei asesu ar wahân i ymgorfforiad. Felly, bydd gofynion cyfraith elusennol a chanllawiau'r Comisiwn Elusennau yn berthnasol i swyddogion CIO o'r dyddiad ymgorffori.

Caiff gallu pob Strwythur i ennill statws elusennol ei ystyried yn yr adrannau canlynol.

Cwmnïau Preifat Cyfyngedig o dan Ddeddf Cwmnïau 2006

Y Ddeddf Cwmnïau 2006 (y "Ddeddf") yw'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf sy'n llywodraethu ar ymgorfforiad y cwmnïau atebolrwydd cyfyngedig, ac ar ymgorfforiad pob cwmni newydd. Gall cwmnïau a ffurfiwyd o dan y Ddeddf hon syrthio i nifer o wahanol gategorïau. Yn benodol:

- cwmnïau preifat/cwmnïau cyhoeddus - nid oes gan gwmnïau preifat unrhyw ofynion cyfalaf i gychwyn, ac mae ganddynt lai o ofynion o ran adroddiadau cyfreithiol, ond mae gan gwmnïau cyhoeddus yr hawl i geisio buddsoddiad gan y cyhoedd; a
- cwmnïau a gyfyngwyd gan gyfranddaliadau (y "CLS") a chwmnïau a gyfyngwyd trwy warant (y "CLG") - gall cwmnïau preifat gael eu cyfyngu naill ai gan gyfranddaliadau neu drwy warant. Nid oes gan gwmnïau CLG gyfalaf cyfranddaliadau ac, yn wahanol i gwmnïau CLS, nid oes gan eu haelodau hawl i gymryd rhan yn elw'r cwmni. O dan y Ddeddf Cwmnïau, ni chaniateir i gwmni preifat sydd wedi'i gyfyngu gan gyfranddaliadau, ofyn i'r cyhoedd am fuddsoddiad. Gall cwmni a gyfyngwyd trwy warant ofyn i'r cyhoedd fuddsoddi trwy ddyled yn y cwmni, a gelwir hyn yn aml yn fondiau, dyledebau neu stoc benthyciadau. Mae'r tri therm cyfreithiol hyn i raddau helaeth yn gyfnewidiol.

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau masnachol sy'n ceisio dosbarthu cyfran o'u helw i'w haelodau wedi'u sefydlu fel cwmnïau CLS, lle gall y cwmni dalu difidend i'w gyfranddalwyr o'r elw y mae'n ei wneud. Mewn cyferbyniad, mae grwpiau cymunedol, elusennau a mentrau cymdeithasol yn aml yn cael eu sefydlu fel cwmnïau CLG o dan y Ddeddf Cwmnïau. Mae'r ddau yn cael eu llywodraethu gan eu Herthyglau Cymdeithasu a'r Deddfau Cwmnïau. Mae Erthyglau Enghreifftiol ar gyfer y gwahanol fathau o gwmnïau a ganiateir o dan y Deddfau Cwmnïau wedi'u gosod gan statud, ond yn aml mae Erthyglau pwrpasol yn cael eu drafftio ac eithrio pan yw'n gwmni CIC lle ceir Erthyglau y mae'n rhaid eu hymgorffori yn ôl y gyfraith.

O ystyried eu hamlygrwydd yn y sectorau menter gymdeithasol, cymunedol ac elusennol, mae'r canllawiau isod wedi'u cyfeirio'n bennaf at gwmnïau CLG. Lle mae'r sefyllfa'n wahanol iawn rhwng cwmnïau CLG a CLS, caiff hynny ei amlygu.

Llywodraethu

Mae'r CLG yn elwa o drefniadau llywodraethu hyblyg yn ogystal â bod yn fath o Strwythur cyfreithiol cydnabyddedig a ddeallir yn gyffredinol (er nad yw mor gyffredin â'r CLS). Gall hyn gynorthwyo i sicrhau cyllid gan arianwyr dyled traddodiadol a allai ei chael hi'n haws rhoi benthg i sefydliad y maent yn ei ddeall.

Mae gan gwmnïau CLG lawer iawn o hyblygrwydd cyfansoddiadol ac maent yn darparu ar gyfer ystod eang o ddulliau llywodraethu sy'n cynrychioli pob lefel o gymhlethdod. Mae erthyglau cymdeithasu CLG yn nodi'r rheolau y bydd cyfarwyddwyr ac aelodau'r CLG yn eu dilyn wrth gynnal eu busnes. Gellir diwygio erthyglau cymdeithasu'r CLG trwy benderfyniad sy'n cael ei basio gan ddim llai na 75% o'r aelodau a'i ffeilio yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Mae penodiad, ymddeoliad a diswyddiad cyfarwyddwyr yn cael eu llywodraethu gan erthyglau cymdeithasu'r CLG. Y cyfarwyddwyr sy'n gwneud y penderfyniadau o ddydd i ddydd mewn CLG, ac yn gyffredinol maent yn gyfrifol am redeg y sefydliad o ddydd i ddydd. Mae'n arferol i erthyglau cymdeithasu'r CLG ganiatáu i'r cyfarwyddwyr ddirprwyo'u hawdurdod i drydydd partion neu sefydlu is-bwyllgorau i'r bwrdd. Mewn rhai amgylchiadau, gellir rhoi pleidlais fwrw i gadeirydd y bwrdd

Gall CLG wneud cais am statws elusennol a dod yn gwmni elusennol cyfyngedig trwy warant. Bydd gan y sefydliad rifau cofrestru elusen a chwmni ar wahân, a bydd gofyn iddo adrodd i'r Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau.

Gofynion Adrodd

Rhaid i gyfarwyddwyr CLG baratoi a ffeilio cyfrifon y cwmni ynghyd ag adroddiad y cyfarwyddwyr ar gyfer pob un o'u blynyddoedd ariannol, a byddant ar gael i'r cyhoedd yn Nhŷ'r Cwmnïau. Mae lefel y manylion a'r gofynion archwilio ar gyfer y cyfrifon hyn yn amrywio yn ôl maint y cwmni.

Rhaid i'r CLG hefyd gyflwyno ffurflen flynyddol yn cadarnhau unrhyw newidiadau i swyddogion neu swyddfa gofrestredig y CLG, neu gyflwyno datganiad ar gyfer y flwyddyn berthnasol i gadarnhau bod y manylion hyn yn parhau'n gywir. Mae yna ffi am ffeilio'r datganiad hwn (ar hyn o bryd, mae'n costio £13 am ffeilio ar-lein a £40 am ffeilio papur).

Trethiant

Y prif fecanwaith ar gyfer trethu Strwythurau yw'r dreth gorfforaeth, ac mae'n daladwy bob blwyddyn ar elw trethadwy'r Strwythurau sy'n deillio o incwm masnachu ac enillion trethadwy. Yr eithriad yw pan fo'r Strwythur yn elusen sydd â rhyddhad penodol rhag talu'r dreth gorfforaeth ac eithrio pan fydd yr elusen yn ymwneud â masnachu anelusennol; hynny yw, masnachu nad yw ar gyfer hyrwyddo amcanion yr elusen. Fel rheol, mae masnachu anelusennol yr elusen yn cael ei wneud gan is-gwmni masnachu.

Nid yw cynhyrchu a gwerthu trydan (gan gynnwys ynni adnewyddadwy) yn elusennol ynddo'i hun. Fodd bynnag, mae yna ddibenion elusennol a all fod yn gydnaws â datblygiadau ynni adnewyddadwy lle mae'r elfennau hynny'n bresennol yng ngweithgareddau'r sefydliad (megis hyrwyddo diogelwch neu welliant yr amgylchedd, neu addysg o bosibl) a lle gallai statws elusennol fod o fudd. Mewn achosion o'r fath, mae cynhyrchu a gwerthu trydan yn aml yn cael ei wneud gan is-gwmni masnachu sy'n talu'i elw ôl-dreth i hyrwyddo dibenion yr elusen.

Mae nifer o reolau cymhleth, daliadau drosodd, ac eithriadau ar gael i wariant corfforaethol, gyda lwfansau ar gyfer gwariant cyfalaf. Dylid ceisio cyngor arbenigol ar drethi os oes angen mwy o wybodaeth am y dreth gorfforaeth.

Bydd pob Strwythur yn atebol i godi ac adennill Treth ar Werth ar eu gweithgareddau masnachu dros yr isafswm cyfredol o £85,000 bob blwyddyn. Dylid ceisio cyngor arbenigol ar TAW bob amser pan fo angen.

Cwmnïau Buddiant Cymunedol (y "CICs")

Mae cwmnïau CIC yn rhai sydd wedi dewis cael eu cofrestru o dan y Ddeddf er mwyn sicrhau bod eu helw'n cael ei ddefnyddio er budd y cymunedau a nodwyd yn y cofrestrriad. Sefydlwyd y cwmnïau CIC cyntaf yn y DU o dan Reoliadau Cwmnïau Buddiant Cymunedol 2005.

Er mwyn cofrestru fel CIC, rhaid i sefydliad wneud cais i reoleiddiwr cwmnïau buddiant cymunedol (y "Rheoleiddiwr CIC") ynghyd â datganiad buddiant cymunedol sy'n rhoi manylion y gymuned a fydd yn elwa o'r CIC a'r modd y bwriedir gwneud hynny. Gall CIC fod yn gwmni cyhoeddus neu breifat, ac (os yw'n breifat) gellir ei gyfyngu gan gyfranddaliadau neu drwy warant.

Gellir naill ai ymgorffori CIC trwy ddechrau o'r dechrau (ac os felly, dylid cyflwyno'r ffurflenni arferol ar gyfer ymgorffori cwmni i'r Rheoleiddiwr CIC ynghyd â'r datganiad o fuddiant cymunedol), neu gellir ei drosi o CLS neu CLG neu CBS trwy gyflwyno'r ffurflenni angenrheidiol i'r Rheoleiddiwr CIC.

Clo Asedau

Y prif gyfyngiad y mae statws CIC yn ei roi ar gwmni yw'r hyn a elwir yn "glo asedau". Mae hyn yn fodd i sicrhau bod asedau'r CIC yn cael eu defnyddio er budd y gymuned (fel yr amlinellir yn y datganiad o fudd cymunedol) ac na chânt eu defnyddio er budd cyfranddalwyr y cwmni.

Rhaid i gwmnïau CIC, fel amod cofrestru, gynnwys clo asedau yn eu herthyglau cymdeithasu. Mae'r clo asedau yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei wneud ag asedau'r CIC ac yn benodol:

- rhaid defnyddio asedau'r CIC er budd y gymuned;
- gosodir terfyn ar allu'r CIC i dalu elw i'w gyfranddalwyr (lle mae gan y CIC gyfalaf cyfranddaliadau); ac
- ni ellir trosglwyddo asedau allan o'r CIC oni chaiff ei wneud:
 - er budd y gymuned;
 - am werth llawn y farchnad; neu
 - i gorff arall â chlo asedau a bennwyd yn erthyglau'r CIC.

Ni ellir newid na symud y clo asedau ar ôl ei ymgorffori, a bydd yr holl asedau, unwaith y bydd y CIC yn berchen arnynt, yn ddarostyngedig iddo. Mae hyn yn golygu ei fod yn bwysig iawn gofalu bod asedau ond yn cael eu cyflwyno i'r CIC os ydynt o fudd i'r gymuned, a bod y CIC yn ymatal rhag trosglwyddo asedau allan o'r CIC oni bai bod hynny'n cydymffurfio â darpariaethau'r clo asedau. Fodd bynnag, gellir caniatáu i CIC werthu asedau os yw'r enillion yn parhau'n ddarostyngedig i'r clo'r asedau.

Yn wahanol i gymdeithasau CBS, mae gan gwmnïau CIC a gyfyngwyd gan gyfranddaliadau rywfaint o hyblygrwydd i ymgorffori clo asedau llai caeth. Mae hynny'n caniatáu iddynt dalu canran gyfyngedig o unrhyw elw'r CIC i'w gyfranddalwyr. Gall hwn fod yn opsiwn deniadol lle ystyrir buddsoddiad ecwiti er-elw gan bartner fel ffordd o ariannu'r sefydliad. Gall partneriaid hefyd "fuddsoddi trwy ddyled", trefniant sydd wedi'i reoleiddio'n llai caeth.

Llywodraethu

Mae llywodraethu CIC yn sylweddol debyg i lywodraethu cwmnïau eraill y Ddeddf Cwmnïau, gyda dyletswyddau ychwanegol yn deillio o natur cwmnïau CIC fel modd i greu budd cymunedol. O'r herwydd, bydd yr egwyddorion llywodraethu a amlinellir mewn perthynas â chwmnïau cyfyngedig hefyd yn berthnasol i gwmnïau CIC.

Yn ychwanegol i'w dyletswyddau cyffredinol o dan gyfraith cwmnïau, mae cyfarwyddwyr ac aelodau CIC yn gyfrifol am sicrhau bod rhediad y cwmni yn parhau i fodloni'r prawf ar gyfer buddiant cymunedol, ac yn rhoi ystyriaeth i fuddiannau'r gymuned wrth wraidd ei sefydlu.

Statws Elusennol

Ni all cwmnïau CIC fod yn elusennau. Er mwyn i CIC ddod yn elusen, rhaid iddo drosi i CIO neu, pan fo CIC yn CLG, i CLG elusennol. Mae'r Rheoleiddiwr wedi cyhoeddi canllawiau ar y broses o drosi i CIO. Am wybodaeth bellach, ewch i <https://www.gov.uk/guidance/convert-a-community-interest-company-to-a-cio>

Gofynion Adrodd

Yn ogystal â'r gofynion sy'n berthnasol i gwmnïau CLG, rhaid i gwmnïau CIC gynhyrchu adroddiad CIC blynyddol i'r Rheoleiddiwr CIC, gan nodi o leiaf y manylion isod:

- yr hyn y mae'r CIC wedi'i wneud er budd y gymuned;
- y modd y mae'r CIC wedi ymgynghori â'i randdeiliaid ynghylch ei weithgareddau;
- manylion am unrhyw ddifidend a ddatganwyd a'r llog a dalwyd mewn cysylltiad â pherfformiad (lle bo hynny'n berthnasol); a
- gwybodaeth am unrhyw asedau a drosglwyddwyd i gyrff eraill â chlo asedau neu a werthwyd am lai na'u gwerth ar y farchnad.

Mae ffi ychwanegol (£15 ar hyn o bryd) yn daladwy mewn perthynas â chyflwyno Adroddiad Blynyddol CIC.

Nid yw cyflwyno Adroddiad CIC yn feichus fel arfer.

Trethiant

Fel cwmnïau Deddf Cwmnïau, rhaid i gwmnïau CIC dalu treth gorfforaeth. Er bod cwmnïau CIC yn parhau'n gymwys i ryddhad ac esemptiad rhag y dreth gorfforaeth, nid oes unrhyw esemptiad treth penodol i'w gael ar eu cyfer.

Cymdeithasau Budd Cymunedol

Er 1 Awst 2014, bu'n bosibl cofrestru dau fath gwahanol o gymdeithas (a elwid gynt yn Gymdeithasau Diwydiannol a Darbodus) sef Cymdeithas Gydweithredol a Chymdeithas Budd Cymunedol (y "CBS").

Y prif wahaniaeth rhwng Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol yw ei fod yn ofynnol i aelodau cymdeithasau cydweithredol gynnal eu busnes er eu budd ei gilydd, tra bo'n rhaid i aelodau cymdeithasau budd cymunedol weithredu er budd unigolion heblaw eu hunain ac er budd y gymuned. Mae cymdeithasau cydweithredol yn cael eu hystyried isod.

Llywodraethu

Mae CBS yn cael ei lywodraethu gan reolau sy'n ffurfio contract rhwng y gymdeithas gofrestredig a'i haelodau ac yn ymdebygu i erthyglau cymdeithasau cwmni Deddf Cwmnïau. Mae rheolau CBS yn nodi ei amcanion a'i bwerau, ac ymhlith y cymalau allweddol yw'r rhai sy'n darparu ar gyfer hawliau a dyletswyddau'r aelodau, gan gynnwys eu derbyniad a'u hymadawiad, penodiad a diswyddiad y cyfarwyddwyr, a'r modd y gwneir penderfyniadau.

Yn ychwanegol i'w rôl yn rheoleiddio sefydliadau ariannol, mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (yr "FCA") yn gweithredu fel cofrestrydd cwmnïau mewn perthynas â chofrestru cymdeithasau. Rhaid i'r FCA gymeradwyo unrhyw newidiadau i reolau'r cymdeithasau CBS, ac ni fyddant yn effeithiol oni bai a hyd nes y ceir cymeradwyaeth o'r fath. Mae hyn yn cyferbynnu â sefyllfa'r cwmnïau Deddf Cwmnïau, lle gall newidiadau i'r erthyglau cymdeithasau ddod i rym ar ôl pasio penderfyniad yr aelodau perthnasol. Mae'r FCA hefyd yn ystyried a ellir parhau i gyfiawnhau statws y gymdeithas ar adeg diwygio'r rheol.

Cofrestru

Oherwydd rôl yr FCA, mae'r broses gofrestru ar gyfer cymdeithas gofrestredig yn wahanol i'r un sy'n berthnasol i gwmnïau Deddf Cwmnïau a'r cwmnïau CIC, er bod y wybodaeth sy'n ofynnol yn debyg i wybodaeth CIC. Anfonir ffurflen gais orffenedig ynghyd â chopïau o'r rheolau i'w defnyddio gan y CBS, i'r FCA yn electronig.

Rhaid i'r CBS gael ei reolau wedi'u cymeradwyo gan yr FCA cyn cofrestru, ac yn gyffredinol er mwyn hwyluso ymgorfforiad cyflym a chost-effeithiol, bydd y CBS yn cyflwyno rheolau yn seiliedig ar set o "Reolau Enghreifftiol" a gymeradwywyd ymlaen llaw. Mae'r rhain yn rheolau CBS safonol ac fe'u cynhelir gan gorff noddi trydydd parti sydd wedi derbyn cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr FCA eu bod yn rheolau CBS addas.

Mae'r FCA yn codi ffi amrywiol yn seiliedig ar nifer y diwygiadau a wneir i set o reolau enghreifftiol. Mae'r ffi yn amrywio rhwng £40 (am fabwysiadu Rheolau Enghreifftiol heb eu diwygio) i £950 (am reolau pwrpasol). Yn gyffredinol, bydd y corff noddi hefyd yn codi ffi am ddefnyddio'r Reolau Enghreifftiol yntau.

Clo Asedau

Y gwahaniaeth allweddol rhwng cofrestru CBS a chofrestru CIC yw bod gan CBS yr opsiwn, ond nid y gofyniad, i ymgorffori clo asedau yn ei reolau.

Gall CBS benderfynu ymgorffori gyda chlo asedau neu hebdo am amryw o resymau. Er enghraifft:

gall rhai potiau o gyllid grant fod ar gael i sefydliadau sy'n ymgorffori clo asedau yn unig;

- gallai fod o fudd i'r CBS ddod o hyd i gefnogaeth a gwirfoddolwyr lleol lle ceir gwarant gyfansoddiadol trwy'r clo asedau y caiff asedau'r CBS eu defnyddio er budd y gymuned yn unig; neu
- byddai clo asedau yn atal y CBS rhag troi'n elusen neu'n gwmni Deddf Cwmnïau yn y dyfodol, heblaw ei fod yn troi'n CIC sy'n ymgorffori'r un clo asedau, ond a fyddai yn nhyb y sefydliad yn cyfyngu ar ei weithgareddau arfaethedig.

O ystyried clo asedau a'i natur ddi-droi'n-ôl, efallai y bydd CBS am ymatal rhag cyfyngu ei hun i glo asedau hyd nes bod ganddo reswm penodol dros wneud hynny.

Os yw CBS yn ymgorffori clo asedau yn ei reolau (neu'n penderfynu gwneud hynny'n ddiweddarach), bydd y clo asedau'n gweithredu yn yr un modd â CIC sy'n ymgorffori clo asedau llawn. Fel CIC, mae hyblygrwydd i ymgorffori clo asedau o fewn CBS ac mae hynny'n caniatáu dosraniadau cyfyngedig o elw ar ffurf llog ar gyfalaf cyfranddaliadau (felly nid elw yn hollol). Mae gan y ddeddfwriaeth eiriad penodol y mae'n rhaid i'r CBS ei ymgorffori yn ei reolau os yw wedi'i gofrestru â chlo asedau. Mae'r geiriad hwn nid yn unig yn cyfyngu'r defnydd o asedau'r CBS ond hefyd yn atal y clo asedau ei hun rhag cael ei newid yn y dyfodol.

Statws Elusennol

Mae'n bosibl i CBS feddu ar statws elusennol (ynghyd â'r buddion treth a ddaw yn ei sgil) trwy geisio'r statws hwnnw gan Gyllid a Thollau EM, er nad yw'n ofynnol ar hyn o bryd i CBS gofrestru fel elusen. Byddai cynigion sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Elusennau 2006 ond sydd ddim wedi dod i rym hyd yma, yn ei gwneud hi'n ofynnol i rai cymdeithasau CBS elusennol ag incwm o fwy na £100,000 gofrestru â'r Comisiwn Elusennau, a dylid nodi os bwriedir cofrestru CBS elusennol y daw'r gofyniad cofrestru hwn yn berthnasol ar ryw bwynt yn y dyfodol. Ni all CBS â chlo asedau ennill statws elusennol - byddai angen ffurfio sefydliad newydd a throsglwyddo asedau iddo.

Cyfalaf Cyfranddaliadau

Mae gan CBS gyfalaf cyfranddaliadau yn yr un modd â chwmni preifat a gyfyngwyd gan gyfranddaliadau (CLS). Fodd bynnag, nid yw'r cyfalaf cyfranddaliadau mor hyblyg â'r hyn a ddyroddir gan CLS, ac yn benodol nid yw cyfranddaliadau yn rhoi hawl i'r cyfranddaliwr gael difidend llawn o elw'r CBS. O'r herwydd, yn gyffredinol, dylid ystyried bod dal cyfranddaliadau mewn CBS yn fuddsoddiad cymdeithasol at ddibenion y CBS, yn hytrach na buddsoddiad ariannol er budd y buddsoddwr. I'r perwyl hwn, mae'r CBS yn elwa o drefn ffafriol ar gyfer codi arian gan y cyhoedd trwy gynnig cyfranddaliadau cymunedol.

Yn gyffredinol, mae cyfalaf cyfranddaliadau'r CBS wedi'i rannu'n ddau ddosbarth: yn gyntaf, cyfalaf cyfranddaliadau "trosglwyddadwy" sef cyfalaf y gellir ei drosglwyddo rhwng cyfranddaliwyr (gyda chaniatâd y bwrdd); ac yn ail, cyfalaf cyfranddaliadau "y gellir ei godi", a all (lle mae gan y CBS arian i wneud hynny) gael ei adbrynu am ei werth enwol, gan ganiatáu i'r buddsoddwr gael ei fuddsoddiad yn ôl. O ystyried na all CBS ddosbarthu ei asedau i'w aelodau wrth ddirwyn i ben, mae'n annhebygol y byddai buddsoddwyr mewn cyfranddaliadau trosglwyddadwy yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol yng ngwerth cyfalaf eu cyfranddaliadau trosglwyddadwy (ac mae'r FCA wedi nodi yn ei ganllawiau y byddai gweld cyfle i wneud enillion cyfalaf o'r fath yn anghyson â chofrestriad y CBS). Mae'n bwysig nodi hefyd y bydd llacio'r rheolau ar gyfer cynigion cyfranddaliadau cymunedol ond yn berthnasol i gyfalaf cyfranddaliadau'r CBS y gellir ei godi, ac nid i'r cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei drosglwyddo.

Er bod CBS yn cynnwys cyfalaf cyfranddaliadau, mae'r aelodau'n gwneud penderfyniadau yn ôl yr egwyddor "un aelod, un bleidlais". Felly, yn wahanol i CLS, nid yw aelod sy'n dal mwy o gyfranddaliadau yn cael mwy o hawliau pleidleisio yn y CBS.

Gellir talu llog (a gamenwir weithiau'n ddifidend o achos eu tebygrwydd) ar gyfranddaliadau ar yr amod nad yw'r taliadau llog yn uwch na'r hyn sydd ei angen i ddenu a dal gafael ar ddigon o fuddsoddiad i redeg busnes. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y gellir talu llog ar gyfranddaliadau sy'n rhan o ddyroddiad cymunedol os yw'r gyfradd wedi'i gosod ar lefel sy'n angenrheidiol i sicrhau y gellir codi'r cyfalaf isaf sy'n angenrheidiol (yn enwedig gan fuddsoddwyr sy'n ceisio enillion ariannol yn hytrach na rhai cymdeithasol).

Mae terfyn statudol (£100,000 ar hyn o bryd) ar y swm y gall unigolyn fuddsoddi mewn cyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei godi (adbryn) o CBS. Nid oes cyfyngiad ar y swm y gall person ei ddal mewn cyfalaf cyfranddaliadau trosglwyddadwy o gymdeithas gofrestredig. Dylid cymryd cyngor cyfreithiol cyn cyhoeddi cyfalaf cyfranddaliadau trosglwyddadwy oherwydd bod yr FCA o'r farn fod yna gyfyngiadau ar y modd y gellir ad-dalu'r cyfalaf trosglwyddadwy hwnnw.

Gofynion Adrodd

Mae cymdeithasau CBS, am resymau hanesyddol, yn cael eu goruchwyllo gan yr FCA ac nid Tŷ'r Cwmnïau, sy'n golygu bod y gofynion ffeilio ac adrodd yn wahanol iawn ar eu cyfer.

Un o fanteision y CBS dros gwmnïau cyfyngedig yw bod y baich gweinyddol a statudol ychydig yn llai, er bod yn rhaid cadw cofnodion mewnol fel mater o lywodraethiant da.

Rhaid i'r CBS gynhyrchu adroddiad a chyfrifon blyneddol ac mae'n rhaid eu hanfon at yr FCA. Bydd yr FCA yn cyhoeddi'r adroddiad blyneddol, ond nid cyfrifon y CBS, er y bydd yn rhaid i'r cyfrifon fod ar gael i unrhyw aelod neu berson arall â buddiant sy'n gofyn amdanynt.

Canlyniad y gofynion is o ran adrodd yw bod cymdeithasau CBS yn gymharol lai tryloyw na chwmnïau Deddf Cwmnïau, a bod llai o wybodaeth ar gael yn gyffredinol ar Gofrestr Cwmnïau Cydpuddiannol Ar-lein yr FCA. Erbyn hyn, mae newidiadau diweddar i'r gofrestr yn golygu y gallwch gyrchu'r wybodaeth hon am ddim ar-lein.

Mae'r FCA yn adolygu'r adroddiadau blyneddol yn fanwl i wirio a yw cymdeithasau'n dal i fod yn gymwys fel Cymdeithasau CBS (neu Gwmnïau Cydweithredol).

Trethiant

Fel "cyrrff corfforaethol", mae cymdeithasau CBS yn destun treth gorfforaeth yn yr un modd â chwmnïau Deddf Cwmnïau a chwmnïau CIC. Dylid nodi, er na all CBS elusennol gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau, gall wneud cais i Gyllid a Thollau EM i gael ei gydnabod yn elusennol, ac os felly bydd yn gymwys i dderbyn y driniaeth dreth fanteisiol a roddir i elusen er nad yw wedi'i chofrestru fel elusen. Am y rheswm a nodwyd uchod, ni all CBS ag asedau clo fod yn elusen.

Cymdeithasau Cydweithredol

Mae cymdeithasau cydweithredol yn fath arall o gymdeithas gofrestredig a reoleiddir gan yr FCA. Maent yn wahanol i'r cymdeithasau CBS gan fod cymdeithasau cydweithredol yn cael eu gweithredu er budd eu haelodau, yn hytrach nac er budd y gymuned heblaw eu haelodau.

Mae cymdeithasau cydweithredol yn gweithredu ar yr egwyddor o "un aelod, un bleidlais" ac yn y blynyddoedd gynt, roeddent yn ddewis poblogaidd ar gyfer cynlluniau ynni cymunedol am eu bod yn cynhyrchu elw y gellid ei ddefnyddio er budd aelodau'r gymdeithas.

Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r FCA wedi'i gwneud hi'n anodd iawn i gofrestru cymdeithasau cydweithredol ynni newydd oherwydd ei ddehongliad o'r hyn yw cymdeithas gydweithredol fel sefydliad sy'n gorfod masnachu â'i aelodau. Dehongliad cyfredol yr FCA yw nad yw'r gofyniad hwn yn cael ei fodloni'n gyffredinol gan nodweddion prosiectau ynni cymunedol, lle mae ynni'n rhedeg trwy'r grid ond lle nad yw'r gymdeithas gydweithredol yn gwerthu'r ynni'n uniongyrchol i'w aelodau.

Yn hynny o beth, oni bai a hyd nes y bydd dehongliad yr FCA yn newid, mae wedi dod yn anodd iawn strwythuro prosiect ynni cymunedol newydd fel cymdeithas gydweithredol.

Trethiant

Mae yna fanteision treth posibl i gofrestru fel cwmni cydweithredol, gan fod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi o'r farn bod masnachu rhwng aelodau ("cyd-fasnachu") yn gallu syrthio y tu allan i gwmpas treth gorfforaeth, cyhyd â bod unrhyw wargedion yn mynd yn ôl i'r aelodau a gyfrannodd at y fasnach ac yn ddarostyngedig i ofynion ychwanegol sy'n ymwneud â thrin gwargedion a rheoli cronfeydd, ymhlith materion eraill.

Sefydliadau Corfforedig Elusennol (CIO)

Cyflwynwyd sefydliadau CIO ym mis Ionawr 2013 a'u bwriad yw gweithredu fel strwythur cyfreithiol amgen ar gyfer cyrff elusennol.

Mae sefydliadau CIO wedi cynyddu mewn poblogrwydd yn raddol ers eu cyflwyno yn y sector elusennol; fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'n anghyffredin i CIO gael ei ddefnyddio fel cyfrwng ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy oherwydd natur anelusennol y prosiectau hynny o ran eu prif weithgareddau economaidd (sef cynhyrchu a gwerthu trydan).

Llywodraethu

Ar y cyfan, mae llywodraethiant CIO yn debyg i lywodraethiant CLG elusennol. Rhaid i CIO gynnwys aelodau ac ymddiriedolwyr (sy'n gweithredu fel cyfarwyddwyr y CIO yn ogystal â bod yn ymddiriedolwyr at ddibenion cyfraith elusennol).

Y gwahaniaeth pwysicaf rhwng y CIO a strwythurau anelusennol eraill yw effaith y mae statws elusennol yn ei gael ar ofynion llywodraethu'r CIO. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i benderfyniadau a wneir gan yr ymddiriedolwyr gefnogi amcanion elusennol y CIO a gweithredu er budd y cyhoedd. Mae'r ystyriaethau ychwanegol hyn yn sail i holl benderfyniadau'r CIO ac maent yn fwy eang na'r Strwythurau anelusennol (hyd yn oed y cwmnïau CIC a'r cymdeithasau CBS hynny sydd â chlo asedau ac yn gorfod gweithredu er budd eu cymuned heb orfod ystyried y budd cyhoeddus ehangach). O'r herwydd, ystyrir bod gan y sefydliadau CIO gyfundrefn lywodraethu fwy cysâct.

Cofrestru

Yn wahanol i'r strwythurau eraill a ystyrir yn yr Adroddiad hwn, mae sefydliadau CIO at ddefnydd elusennol yn unig. Cofrestrir sefydliad CIO trwy'r Comisiwn Elusennau, ac i raddau helaeth mae'n dilyn yr un broses gofrestru ag elusen, ac eithrio nad yw'r endid ei hun yn bodoli nac yn gallu gweithredu â phersonoliaeth gyfreithiol oni bai a hyd nes bod y cofrestriad wedi'i gwblhau.

O'r herwydd, mae'r defodau cofrestru ar gyfer CIO yn gymharol gymhleth ac fel rheol, byddant yn cymryd cryn dipyn yn hirach na'r Strwythurau eraill i'w cofrestru (yn enwedig cwmnïau Deddf Cwmnïau).

Gofynion Adrodd

Gan fod sefydliadau CIO yn cael eu cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau ac nid Tŷ'r Cwmnïau, nid yw'n ofynnol i swyddogion CIO ffeilio cyfrifon ac adroddiadau gyda Thŷ'r Cwmnïau fel sy'n wir am gwmnïau Deddf Cwmnïau a chwmnïau CIC.

Rhaid i sefydliadau CIO gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Comisiwn Elusennau a bydd ar gael i'r cyhoedd ar y gofrestr, ynghyd ag adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r cyfrifon blynyddol. Nid yw'r ffeiliau eraill (gan gynnwys cyfansoddiad y CIO) ar gael i sylw'r cyhoedd.

Trethiant

Mae sefydliadau CIO yn syrthio o fewn y diffiniad "corff corfforaethol" ac felly maent yn destun treth gorfforaeth yn yr un modd â chwmnïau Deddf Cwmnïau, cwmnïau CIC a chymdeithasau CBS. Sefydliad elusennol yw'r CIO ac felly, mae'n teilyngu esemptiad rhag y dreth gorfforaeth mewn perthynas ag elw a ddefnyddir at ddibenion neilltuol yr elusen.

Mae yna nifer o eithriadau, gofynion a phrofion i benderfynu a yw gwariant elusennol yn gymwys ar gyfer esemptiadau ai peidio, a bydd yn bwysig cymryd cyngor arbenigol ar dreth elusennol i sicrhau bod y rhyddhadau hyn yn cael eu defnyddio i'r eithaf yng nghyd-destun y sefydliadau CIO sy'n ymwneud â'r sector ynni.

Perthnasedd y “Gymuned” ar gyfer Cynlluniau Ynni Cymunedol

Nid oes un ateb cyfreithiol i'r cwestiwn “beth sy'n gwneud cynllun ynni yn un sy'n eiddo i'r gymuned?” ac mae'n fater sy'n cynnig her i reoleiddwyr yn aml (a, thrwy estyniad, sefydliadau sy'n gobeithio cwrdd â'r categori). Gall hefyd fod yn berthnasol ar gyfer llywodraeth leol a chyllid elusennol.

Wrth strwythuro cynllun ynni, mae yna ddwy sefyllfa lle gall y diffiniad o “gymuned” fod yn bwysig:

- wrth gofrestru strwythur cyfreithiol; ac
- wrth gofrestru ag Ofgem.

Dehongliad Ofgem o “Gymuned”

Yn hanesyddol, mae gosodiadau ynni cymunedol wedi elwa o gyfnodau dilysrwydd a gwarantau tariff uwch o dan y cynllun Tariff Cyflenwi Trydan (“FiT”) a weinyddwyd gan Ofgem rhwng 2012 a mis Ebrill 2019. Cwtogwyd y buddion hyn yn sylweddol yn dilyn etholiad cyffredinol 2015 a bellach, mae'r FiT ar gau i geisiadau newydd. O'r herwydd, nid yw'r diffiniadau isod yn debygol o fod yn berthnasol iawn i brosiectau ynni cymunedol newydd oni chyflwynir mecanweithiau cymorth amgen ar gyfer prosiectau cymunedol.

Diffinnir gosodiad ynni cymunedol fel un sy'n gymwys ar gyfer FiT ac sydd “wedi'i wifro i ddarparu trydan i adeilad nad yw'n annedd a lle mae'r generadur FiT yn rhan o sefydliad cymunedol”.

Mae deddfwriaeth yn diffinio “sefydliad cymunedol” at ddibenion y Tariff Cyflenwi Trydan (“FiT”) fel “ unrhyw un o'r canlynol sydd â 50 neu lai o weithwyr: elusen; is-gwmni, ym mherchnogaeth lwyr yr elusen; cymdeithas budd cymunedol neu gydweithredol; neu gwmni buddiant cymunedol”.

Cofrestru Strwythur Cyfreithiol

Mae'r cysyniad o fudd cymunedol yn ganolog i ddau o'r endidau cyfreithiol cyffredin a ddefnyddir mewn cynlluniau ynni cymunedol ac a ystyrir uchod - yn benodol, y cwmnïau CIC a'r cymdeithasau CBS.

Ystyrir gofyniad “cymunedol” pob un o'r Strwythurau hyn yn yr adran ganlynol.

Cwmnïau Buddiant Cymunedol

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae cofrestriad y cwmni CIC yn dibynnu ar gyflwyno “datganiad buddiant cymunedol” sy’n nodi pa “gymuned” fydd yn elwa o’r CIC a’r modd y bydd y gymuned honno’n elwa o weithgareddau arfaethedig y CIC.

Mae'r Rheoleiddiwr CIC wedi cyhoeddi canllawiau manwl ar ystyr “cymuned” yng nghyd-destun CIC. Yn benodol, mae pennod 2.3 o ganllawiau'r Rheoleiddiwr CIC yn nodi:

Gall cymuned at ddibenion CIC gynnwys naill ai'r boblogaeth gyfan neu sector neu grŵp o bobl ddiffiniadwy naill ai yn y DU neu rywle arall. Mae deddfwriaeth CIC yn nodi y gall unrhyw grŵp o unigolion fod yn gymuned os ydynt yn rhannu nodwedd gyffredin sy'n eu gwahaniaethu oddi wrth aelodau eraill o'r gymuned ac os gallai rhywun rhesymol ystyried eu bod yn rhan o'r gymuned. [Fodd bynnag] [...] disgwylir y bydd y gymuned fel arfer yn ehangach nag aelodau'r CIC yn unig.

Unwaith y bydd y gymuned berthnasol wedi'i nodi, rhaid i'r CIC fodloni'r prawf buddiant cymunedol mewn perthynas â'r gymuned honno. Y prawf yw a allai rhywun rhesymol ystyried bod ei weithgareddau (neu weithgareddau arfaethedig) yn cael eu cynnal er budd y gymuned.

Rhaid bodloni'r Rheoleiddiwr CIC fod cymuned addas yn cael ei nodi a bod y prawf buddiant cymunedol wedi'i fodloni mewn perthynas â'r gymuned honno er mwyn i gofrestrriad y CIC fynd yn ei flaen. Rhaid i gwmnïau CIC hefyd gyflwyno datganiadau buddiant cymunedol blynyddol sy'n rhoi manylion ynghylch y ffyrdd y mae eu cymuned wedi elwa yn ystod y flwyddyn flaenorol i sicrhau eu bod yn parhau i fodloni'r prawf buddiant cymunedol.

Mae gwefan y Rheoleiddiwr CIC (gan gynnwys ei ganllawiau cyhoeddedig) ar gael yn <https://www.gov.uk/government/organisations/office-of-the-regulator-of-community-interest-companies>.

Cymdeithasau Budd Cymunedol

Fel cwmnïau CIC, rhaid i gymdeithasau CBS, wrth gofrestru, nodi'r gymuned a fydd yn elwa o'u sefydliad. Yn wahanol i gwmnïau CIC, nid yw hyn yn destun ffurflen ar wahân ond mae'n rhan gynhenid o reolau'r CBS a'r ffurflenni sydd i'w cyflwyno wrth gofrestru.

Mae'r FCA wedi cyhoeddi canllawiau ar ei swyddogaeth gofrestru mewn perthynas â chymdeithasau cydfuddiannol (gan gynnwys cymdeithasau CBS). Mae'r gofynion yn sylweddol debyg i'r gofynion sy'n berthnasol i gwmnïau CIC (er eu bod wedi'u gosod a'u geirio'n wahanol) ac yn benodol, mae'r canllawiau:

- yn nodi y gallai'r "gymuned" a fydd yn elwa o'r CBS fod y gymuned gyfan neu ardal benodol;
- yn egluro bod yn rhaid i'r diwydiant, busnes neu fasnach a gynhelir gan y CBS gael ei gynnal er budd y gymuned yn unig (mewn geiriau eraill, ni all y CBS fod â dibenion eilaidd neu ategol nad ydynt o fudd i'r gymuned); ac
- yn nodi, er y gall CBS fod yn gwbl elusennol neu fuddiannol, nid oes rhaid iddo fod felly, cyhyd â bod ei fusnes yn cael ei gynnal er budd y gymuned.

Yn yr un modd â'r broses ar gyfer cwmnïau CIC, rhaid i'r FCA sicrhau bod gofynion cymunedol y CBS wedi'u bodloni cyn y bydd yn cofrestru'r gymdeithas.

Am borth cymdeithasau cydfuddiannol yr FCA, ewch i <https://www.fca.org.uk/firms/mutual-societies>. Yn benodol, gellir dod o hyd i ganllawiau'r FCA ar gofrestru cymdeithasau cydfuddiannol yn <https://www.fca.org.uk/publication/finalised-guidance/fg15-12.pdf>.

Pa Strwythur sydd Fwyaf Priodol?

O'r Strwythurau a ystyriwyd yn yr adroddiad hwn, mae gan sefydliadau resymau da dros ddewis unrhyw un o'r ffurfiau hynny. Efallai y bydd manylion prosiect neu gymuned benodol yn gwneud un ffurf yn fwy neu'n llai deniadol, ac mae rhai o'r ystyriaethau mwyaf cyffredin wrth wneud y penderfyniad hwn yn cael eu trafod isod. Dylid nodi nad yw'r ystyriaethau a restrwyd isod yn hollgynhwysfawr, ac yn aml bydd lluo o ystyriaethau'n berthnasol a bydd angen eu cloriannu a'u cymharu wrth bennu Strwythur priodol.

Lle mae'n ymddangos bod mwy nag un Strwythur yn briodol ar gyfer prosiect penodol, mae'n fuddiol ceisio cyngor allanol pellach mewn perthynas â'r Strwythur arfaethedig, oherwydd yn aml gall rhesymau cyfreithiol neu ariannol (yn enwedig o ran trethiant) olygu y gallai un Strwythur ragori ar y gweddill.

Mae'n werth cofio hefyd, pan fodlonir unrhyw amodau perthnasol, y gallai fod modd trosi o un math o Strwythur cyfreithiol i un arall. Ystyrir hyn ymhellach isod.

Strwythur Llywodraethu

Os cytunwyd ar strwythur llywodraethu penodol gyda'r aelodau, mae'n bwysig nodi ei fod yn anodd iawn symud CBS i ffordd o'r egwyddor "un aelod, un bleidlais" (oherwydd bod gofyn i'r FCA gymeradwyo unrhyw newid i'r rheolau). Er enghraifft, os yw aelod sefydlol eisiau cadw hawliau pleidleisio gwell sydd y tu hwnt i bleidlais fwrw ym mwrdd y cyfarwyddwyr, gallai fod yn fwy priodol edrych ar gwmnïau Deddf Cwmnïau (gan gynnwys cwmnïau CIC), gan fod ganddynt fwy o ryddid yn gyffredinol o ran trefniadau llywodraethu. Fodd bynnag, efallai y bydd modd caniatáu rhai darpariaethau fetu i aelod penodol er mwyn diogelu cenhadaeth y CBS.

Cyfranddaliadau Cymunedol

Un o ystyriaethau allweddol pob prosiect ynni cymunedol yw: o ble y daw'r arian i'w ddatblygu?

Yn gyffredinol, gwaherddir cwmnïau (gan gynnwys cwmnïau CIC) rhag dyroddi cyfranddaliadau i'r cyhoedd. Yn fras, ni all cwmnïau Deddf Cwmnïau Preifat wneud hynny o gwbl, ac mae cwmnïau cyhoeddus yn destun defodau a dyletswyddau cyfreithiol cymhleth (a drud o'r herwydd) wrth weithredu yn y fath fodd.

Gall cymdeithasau CBS fanteisio ar esemptiad i'r rheolau hyn fel y gallant gynnig i'r cyhoedd gyfranddaliadau anhrosglwyddadwy y gellir eu codi (yn gyffredin, fe'u gelwir yn "ddyroddiadau cyfranddaliadau cymunedol" neu "gynigion cyfranddaliadau cymunedol"). Felly, mae CBS yn strwythur poblogaidd lle rhagwelir buddsoddiad gan y gymuned ehangach. Er bod llai o ffurfioldeb yn gysylltiedig â dyroddi cyfranddaliadau cymunedol, maent yn parhau i fod yn brosesau cymhleth a bydd angen cyngor arbenigol i sicrhau bod y dull hwn ar gael.

Gall dyroddi cyfranddaliadau cymunedol gynnig manteision sylweddol o ran cost ac amser, a chaniatáu i'r CBS godi cyfalaf sylweddol gan fuddsoddwyr na fyddai ar gael trwy strwythurau cyfreithiol eraill. Gall buddsoddwyr hefyd gynnwys rhai sy'n ceisio buddion cymdeithasol yn hytrach na buddion ariannol o'u buddsoddiadau. Byddai angen ystyried y manteision hyn ochr yn ochr â'r anfantais y gallai cyfranddaliadau'r CBS y gellir eu codi, fod yn llai deniadol i fuddsoddwyr preifat oherwydd natur anhrosglwyddadwy'r cyfalaf cyfranddaliadau.

Gall buddsoddiadau mewn cyfranddaliadau CBS hefyd ddenu cymhelliant treth, er y dylid ystyried argaeledd cyfredol y cymhelliant treth ar gyfer prosiectau ynni cymunedol.

Cyllid i Ariannu Dyledion

Mae "cyllid i ariannu dyledion" (a elwir hefyd yn "gyllid banc") yn ddull mwy traddodiadol o gyllido na "chynigion cyfranddaliadau cymunedol", a gall fod yn ffordd dda o sicrhau cyfalaf, ar yr amod bod y cyllidwr yn fodlon y bydd ei fuddsoddiad yn cael ei ad-dalu ac y bydd ei arian yn cael ei ddiogelu. Yn hynny o beth, po fwyaf cyfarwydd yw banc â strwythur cyfreithiol neilltuol, y mwyaf cywir y bydd yn rhagweld risgiau a'r mwyaf tebygol y bydd o fenthylg arian i'r sefydliad.

Mae benthycwyr masnachol fel arfer yn fwyaf cyfforddus wrth ddelio â strwythurau sy'n cynnwys CLS, gan fod y mwyafrif o fentrau masnachol er-elw yn tueddu i weithredu trwy'r cyfrwng hwn. Yn fras, mae CLG yn dilyn egwyddorion tebyg i rai CLS, er y gall diffyg cyfalaf cyfranddaliadau ofyn am rywfaint o waith ymchwil yn y banc.

Gall cloeon asedau CIC fod yn broblem i fanc os yw'n anghyfarwydd â'r cysyniad. Er hynny, mae'r Rheoleiddiwr CIC yn nodi yn ei ganllaw nad yw clo asedau'n gwarafun sicrhad i fanc os caiff ei gynnig ar delerau arferol y farchnad.

Gall cymdeithasau CBS, cymdeithasau cydweithredol, cwmnïau Deddf Cwmnïau sydd wedi'u cyfyngu trwy warant a chwmnïau CIC sydd wedi'u cyfyngu trwy warant, i gyd wneud cynigion dyled i'r cyhoedd a gall hyn fod yn ffordd arall o godi cyllid yn lle neu yn ychwanegol at gyfalaf cyfranddaliadau. Bydd angen dilyn rheolau ynghylch hyrwyddo cyllid, a bydd angen cyngor cyfreithiol.

Cyllid Ecwiti

Pan fydd buddsoddwr yn ceisio buddsoddi symiau mewn sefydliad gyda'r bwriad o wneud enillion ariannol yn seiliedig ar elw'r sefydliad a chynnydd yng ngwerth y sefydliad, dylid nodi bod CLS, CLG, CBC, CIO a CBS yn wahanol iawn i'r hyn y gall buddsoddwr ecwiti ei gael:

- byddai CLS yn caniatáu i'r Buddsoddwr Ecwiti gael difidend llawn yn unrhyw elw a ddaw i'r sefydliad a byddai'i gyfranddaliadau yn cynyddu ac yn gostwng mewn gwerth yn unol â gwerth y CLS, tra na all CLG dalu elw i'w aelodau yn yr un modd;

- bydd clo asedau CIC yn cyfyngu'n ddifrifol ar ddosbarthu difidend ac ased i fuddsoddwyr preifat; a

- yn yr un modd, mae CBS (a yw'n ymgorffori clo asedau ai peidio) wedi'i wahardd rhag gwneud taliadau i'w aelodau, a dim ond ar gyfranddaliadau aelodau y gall dalu llog (a ddylai fod yn gyfyngedig).

- Mae cwmnïau CLG a CIC a gyfyngwyd trwy warant a sefydliadau CIO yn eiddo i'r aelodaeth ac nid trwy gyfranddaliadau; felly, nid yw'n bosibl buddsoddi ecwiti trwy gyfranddaliadau yn y strwythurau hyn. Efallai y bydd mathau eraill o fuddsoddiad ecwiti mwy cymhleth ar gael (megis dyroddiadau bond neu nodiadau benthyg), ond mae yna gyfyngiadau ar gynnig buddsoddiadau o'r math hwn i'r cyhoedd, a bydd sefydliadau CIO a chwmnïau CIC a gyfyngwyd trwy warant, yn cael eu cyfyngu yn y llog y gallant ei gynnig i aelodau yn unol â'r gyfraith ar elusennau a chlo asedau'r sefydliad.

Cyllido Torfol

Mae pob un o'r Strwythurau yn gymwys i gymryd rhan mewn rhai mathau o gyllido torfol, er bod rhoi gwarantau i'r cyhoedd (ei hun yn fath o gyllido torfol) yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a nodwyd uchod. Nid yw ceisio rhoddion gan y cyhoedd (yn ogystal â phlatformau cyllido torfol a seiliwyd ar fuddion) yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau ac maent, mewn theori, ar gael i'r holl Strwythurau, er y byddai angen i'r sefydliad gadw at delerau gwasanaeth y plattform perthnasol, yn ogystal â gofynion llywodraethu a rheoleiddio'r sefydliad.

Trethiant

Yn ogystal â'r materion strwythuro cyfreithiol sydd i'w hystyried, mae trethiant yn faes arall lle dylid ceisio cyngor arbenigol i sicrhau bod goblygiadau trethiant y strwythur yn hysbys o flaen llaw.

Fel mater o bolisi, mae nifer o ryddhadau treth sydd ar gael i fentrau cymdeithasol, ddim ar gael i gyrff a sefydlwyd i gynhyrchu ynni. Yn benodol, nid yw'r Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau (EIS) na'r Rhyddhad Treth ar gyfer Buddsoddiad Cymunedol (CITR) ar gael bellach i gynyrchiadau ynni.

Cyhoeddodd y llywodraeth gynlluniau i ehangu'r Rhyddhad Treth ar gyfer Buddsoddiad Cymdeithasol (SITR) i sefydliadau ynni cymunedol a oedd yn ymwneud ag allforio ynni; fodd bynnag, cafodd y cynlluniau hyn eu gohirio am gyfnod amhenodol ac ar hyn o bryd nid ydynt ar gael.

Gall statws elusennol roi nifer o fanteision trethiant i sefydliad, sydd y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae Llywodraeth yr Alban yn cynnig rhyddhad ardrethi busnes hyd at 100% i brosiectau ynni cymunedol ac mae Llywodraeth Cymru yn cynnig rhyddhad ardrethi busnes o 100% i brosiectau hydro cymunedol (2019-2020).

Trosi

Ni fydd cofrestru sefydliad fel Strwythur penodol o reidrwydd yn atal y sefydliad hwnnw rhag trosi i fath arall o sefydliad.

Ni ddylid ymgymryd â'r broses ailgofrestru'n ysgafn, oherwydd gall fod yn gymhleth ac yn ddrud i ymgymryd â hi (yn enwedig lle mae gan y sefydliad asedau a chontractau â thrydydd partïon, neu hanes masnachu, a gall y ddau ffactor hynny ychwanegu at gymhlethdodau cyfreithiol a threthiannol wrth drosi sefydliad); fodd bynnag, mae'n darparu rhywfaint o hyblygrwydd pan fydd sefydliad yn penderfynu ei fod yn dymuno ailgofrestru naill ai am resymau sefydliadol, neu am fuddion sylweddol (e.e. budd-dal treth nad oedd ar gael o'r blaen).

Isod, nodir yr addasiadau y gellir eu cyflawni mewn perthynas â'r endidau penodol a ystyrir yn yr adroddiad hwn. Mae defodau trosi yn amrywio o ffurf i ffurf ac maent y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae yna ddarpariaethau arbennig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 sy'n ei gwneud hi'n haws i gwmni drosi i fod yn CBS heb effeithio ar asedau'r cwmni gan nad yw'r statws corfforaethol yn cael ei drin fel petai newid wedi digwydd. Yn benodol, dylid nodi y bydd angen caniatâd rheoleiddiwr ar gyfer rhai trosiadau (e.e. y Comisiwn Elusennau neu'r FCA) ac, yn achos trosi i elusen, gall fod yn arbennig o gymhleth ac efallai na fydd ar gael ym mhob achos.

Ystyriaethau Wrth Ddewis Strwythur Cyfreithiol Ar Gyfer Eich Cynllun Ynni Cymunedol

	CLS	CLG	CIC a gyfyngwyd gan gyfranddaliadau	CIC a gyfyngwyd trwy warant	CBS â chlo asedau	CBS heb glo asedau	CO-OP	CIO
Pwy fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau?								
Bwrdd y cyfarwyddwyr	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓ sefydliad
Aelodau ehangach – un aelod, un bleidlais		✓		✓	✓	✓	✓	✓ Cymdeithas
Cyfranddalwyr – un cyfranddaliad, un bleidlais	✓		✓					
Hawliau pleidleisio gwell (noder: mae hyn yn fwy anodd mewn rhai strwythurau na'i gilydd)	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Pwy fydd y prif fuddiolwyr?								
Cyfranddalwyr/aelodau	✓		✓				✓	
Cymuned ddiffiniedig			✓	✓	✓	✓		✓
Corff		✓						
Sut gellir ariannu'ch prosiect?								
Cyllid trwy fenthyciadau	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cyllid grant	Annhebyg	fel arfer, gydag erthyglau pwrpasol yn unig	Annhebyg	✓	✓	Annhebyg	✓	✓
Cynnig cyfraniadau/ bondiau cymunedol		✓		✓	✓	✓	✓	
Cyllid ecwiti (bydd enillion ariannol yn gwahaniaethu yn ôl y strwythur a ddewisir)	✓		✓					
Cyllido torfol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Trosi strwythur cyfreithiol

	Gellir trosi i:							
	CLS	CLG	CIC A gyfyngwyd Gan Gyfranddaliadau	CIC A gyfyngwyd Trwy warant	CBS Â chlo Asedau	CBS Heb glo Asedau	CO-OP	CIO
Cymdeithas Gydweithredol								
Cwmni A Gyfyngwyd Gan Gyfranddaliadau (CLS)								
Cwmni A Gyfyngwyd Trwy Warant (CGL)	 os yw'n elusennol							 â chaniatâd y comisiwn elusennau
Cwmni Buddiant Cymunedol (CIC) - A Gyfyngwyd Gan Gyfranddaliadau		 os yw'n elusennol						 â chaniatâd y comisiwn elusennau
Cymdeithas Budd Cymunedol (CBS) - Â Chlo Asedau								
Cymdeithas Budd Cymunedol (CBS) - Heb Glo Asedau							 Trwy gyfuno	
Cymdeithas Gydweithredol								
Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO)								

Cysylltiadau Defnyddiol

Ynni Cymunedol Cymru

Mae Ynni Cymunedol Cymru yn sefydliad nid-er-elw ar gyfer aelodau a sefydlwyd i roi cymorth a llais i grwpiau cymunedol sy'n gweithio ar brosiectau ynni yng Nghymru.



I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gefnogaeth sydd ar gael i grwpiau sy'n edrych i mewn i gynlluniau ynni cymunedol, neu i ymuno â'r rhwydwaith o grwpiau ynni cymunedol yng Nghymru, mae croeso ichi gysylltu ag Ynni Cymunedol Cymru: www.communityenergywales.org.uk - 02920 190260 - gwybodaeth@ynnicymunedolcymru.org.uk

Cyngor Cyfreithiol

Byddem yn argymhell eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiol annibynnol, yn enwedig wrth lunio cytundebau contractiol.

WRIGLEYS
— SOLICITORS —

Gall cyfreithwyr Wrigleys gynghori ar bob elfen o brosiect adnewyddadwy, ac mae gan dîm Wrigleys brofiad o ddelio â thechnolegau gwynt, solar, hydro ac adnewyddadwy eraill ac o weithredu ar ran datblygwyr, cyllidwyr, tenantiaid masnachol, a datblygiadau o bob maint. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Thîm Ynni Adnewyddadwy Wrigleys: Malcolm Lynch: Partner, Elusennau ac Economi Gymdeithasol, Leeds - 0113 204 5724 - malcolm.lynch@wrigleys.co.uk

Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol

Mae cefnogaeth lywodraethu ar gael gan eich cyngor gwirfoddol cymunedol lleol. Am fanylion cyswllt ar gyfer eich cyngor gwirfoddol lleol, ewch i: <https://www.wcva.org.uk/funding/advice/cvcs>

Awdurdod Ymddygiad Ariannol <https://www.fca.org.uk/firms/registered-societies-introduction>

Comisiwn Elusennau <https://www.gov.uk/guidance/charity-commission-guidance>

Tŷ'r Cwmnïau <https://www.gov.uk/topic/company-registration-filing/starting-company>

Cymorth Cynllunio Cymru

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn elusen annibynnol sy'n helpu unigolion a chymunedau ledled Cymru i gyfranogi'n fwy effeithiol yn y system gynllunio.

Mae ein gwasanaethau craidd a ariennir yn cynnwys Llinell Gymorth am ddim ar gynllunio, cyflenwi hyfforddiant ar gynllunio i amrediad o gynulleidfaoedd a datblygu canllawiau hawdd eu darllen ar gynllunio.



Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

I gael gwybodaeth a chyngor ar y rhestr lawn o'r gwasanaethau a gynigiwn ewch i <http://www.planningaidwales.org.uk/>
Gallwch gysylltu â ni trwy ebost info@planningaidwales.org.uk neu ar y ffôn 02920 625004



crt renewable
energy ltd

Manylion Cyswllt

Tŷ Aneurin Bevan

40 Stryd y Castell

Tredeggar

Blaenau Gwent

NP22 3DQ

Rhif ffôn: **01495 367680**

E-bost: **wales@coalfields-regen.org.uk**

Ariannwyd y ddogfen hon yn rhannol gan Lywodraeth Cymru (trwy Gynllun Cymunedau Gwledig y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020) a'r Undeb Ewropeiadd, gyda chyllid cyfatebol gan Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo



www.coalfields-regen.org.uk

Mae'r Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo yn Elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (Rhif 1074930) ac yn Elusen sydd wedi'i chofrestru yn yr Alban (Rhif SC039277).

Mae hefyd yn Gwmni Cyfyngedig trwy Warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (Rhif 3738566)